Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 03.10.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymgynghoriad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - ein Cynllun Strategol 2025 - 2028** |

### Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella’r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw’r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae’r meysydd ffocws arfaethedig yn ymddangos yn gymesur ac yn ystyried materion cymdeithasol cyfredol yn dda. Rydym wedi rhoi sylwadau manwl yn yr arolwg ar y meysydd y gallai EHRC fod eisiau eu hystyried yn ogystal â’i waith ar y themâu awgrymedig neu fel rhan o’i waith arnynt. Yn gyffredinol, mae’r sylwadau hyn yn annog EHRC i ystyried y canlynol yn ei adolygiad:

- y cysylltiadau â darpariaeth addysg
- sut gall y themâu hyn gyfrannu at anghydraddoldeb mewn addysg
- argaeledd data a’r defnydd ohono
- effaith camau gweithredu ar ddeilliannau

**Cwestiynau’r ymgynghoriad**

## Ydych chi’n ymateb fel unigol neu o sefydliad?

☐ Unigolyn

☒ Sefydliad

**Cydraddoldeb: Pa rai o'r nodweddion canlynol a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n berthnasol i'ch ymateb?**

**Dewiswch bob un o'r nodweddion a'r datganiadau sy'n berthnasol.**

| | Rwy'n gweithio yn y maes hwn | Mae gennyf ddiddordeb yn y maes hwn | Mae gennyf brofiad personol â materion yn y maes hwn |
|---|---|---|---|
| Oed | ☐ | x | ☐ |
| Anabledd | x | x | ☐ |
| Ailbennu rhywedd | ☐ | x | ☐ |
| Priodas a phartneriaeth sifil | ☐ | x | ☐ |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | x | x | ☐ |
| Hil | X | x | ☐ |
| Crefydd a chred | X | x | ☐ |
| Rhyw | X | x | ☐ |
| Cyfeiriadedd rhywiol | x | x | ☐ |

Er nad ydym yn gweithio'n uniongyrchol yn y meysydd sydd â chroes ynddynt uchod, mae pob un ohonynt yn feysydd sy'n berthnasol i'n gwaith gyda darparwyr.

**Hawliau Dynol: Pa rai o’r canlynol sy’n berthnasol i’ch ymateb?**

**Dewiswch bob un sy’n berthnasol.**

- [x] Rwy’n gweithio ar faterion sy’n ymwneud â hawliau dynol
- [x] Mae gennyf ddiddordeb mewn materion sy’n ymwneud â hawliau dynol
- [x] Mae gennyf brofiad personol â materion sy’n ymwneud â hawliau dynol
- [ ] Dim un o’r uchod

**Ymhle mae'ch sefydliad wedi'i leoli ac ymhle gall pobl fanteisio arno?**

**Er enghraifft, efallai eich bod wedi'ch lleoli yn Lloegr, ond yn gwasanaethu pobl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.**

**Dewiswch bob gwlad sy'n berthnasol**

- [ ] Lloegr
- [ ] Yr Alban
- [x] Cymru

**Faint ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol:**

**'Rwy'n gwybod beth mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei wneud.'**

- [ ] Cytuno'n gryf
- [x] Cytuno
- [ ] Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Anghytuno'n gryf
- [ ] Ddim yn gwybod

**Rheolydd ydym ni sydd â phwerau statudol i wella cydraddoldeb a hawliau dynol a gorfodi'r gyfraith ym Mhrydain Fawr. Mae mwy o fanylion am sut rydym yn meddwl am wneud hyn yn 2025-28 wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Strategol drafft.**

**Sut ydych chi'n credu y gall EHRC wneud y gwahaniaeth mwyaf fel rheolydd cydraddoldeb a hawliau dynol?**

**Llusgwch a gollyngwch y canlynol yn ôl trefn (1) gwahaniaeth mwyaf i (5) gwahaniaeth lleiaf, neu dewiswch y rhif o'r rhestr ar yr ochr chwith i bob datganiad.**

| | |
|---|---|
| Darparu data a thystiolaeth yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol. | 1 |
| Cynghori llywodraethau, rheolyddion ac eraill ar sut i wella systemau a sicrhau bod polisïau a deddfau ar waith i hybu cydraddoldeb a hawliau dynol. | 4 |
| Darparu gwybodaeth, arweiniad a chyngor i gynorthwyo sefydliadau i fodloni eu dyletswyddau dan ddeddfau cydraddoldeb a hawliau dynol. | 2 |
| Helpu unigolion i ddeall eu hawliau. | 5 |
| Cymryd camau yn erbyn sefydliadau sy'n torri deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol, dwyn y rhai sy'n torri'r gyfraith i gyfrif a sicrhau cyfiawnder i'r rhai y torrwyd eu hawliau. | 3 |

**Sut ydych chi'n credu y mae EHRC yn fwyaf effeithiol ar hyn o bryd fel rheolydd cydraddoldeb a hawliau dynol?**

**Llusgwch a gollyngwch y canlynol yn ôl trefn (1) gwahaniaeth mwyaf i (5) gwahaniaeth lleiaf, neu dewiswch y rhif o'r rhestr ar yr ochr chwith i bob datganiad.**

| | |
|---|---|
| Darparu data a thystiolaeth yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol. | 1 |
| Cynghori llywodraethau, rheolyddion ac eraill ar sut i wella systemau a sicrhau bod polisïau a deddfau ar waith i hybu cydraddoldeb a hawliau dynol. | 2 |
| Darparu gwybodaeth, arweiniad a chyngor i gynorthwyo sefydliadau i fodloni eu dyletswyddau dan ddeddfau cydraddoldeb a hawliau dynol. | 3 |
| Helpu unigolion i ddeall eu hawliau. | 4 |
| Cymryd camau yn erbyn sefydliadau sy'n torri deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol, dwyn y rhai sy'n torri'r gyfraith i gyfrif a sicrhau cyfiawnder i'r rhai y torrwyd eu hawliau. | 5 |

**Yn ein cynllun drafft, rydym wedi amlinellu Gwaith, Cyfranogiad a Chysylltiadau Da, a Chyfiawnder a Chydbwysedd Hawliau fel tri maes blaenoriaeth posibl i EHRC ganolbwyntio arnynt yn 2025-28.**

**Mae rhai materion posibl rydym yn eu hystyried yn y maes Gwaith ar gyfer 2025-28 wedi'u rhestru isod.**

**Llusgwch a gollyngwch y materion canlynol yn ôl trefn (1) pwysicaf i EHRC ganolbwyntio arno i (8) lleiaf pwysig i EHRC ganolbwyntio arno, neu dewiswch y rhif o'r rhestr ar yr ochr chwith i bob datganiad.**

| | |
|---|---|
| Gwahaniaethu ar sail rhyw, aflonyddu a/neu erledigaeth, yn cynnwys aflonyddu rhywiol, yn y gweithle. | 7 |
| Bylchau cyflog a chyflogaeth i fenywod, pobl anabl a nifer o grwpiau ethnig leiafrifol. | 2 |
| Rhwystrau rhag cyfranogiad yn y gweithle i bobl anabl, yn cynnwys materion yn ymwneud ag addasiadau rhesymol. | 4 |
| Nid yw buddsoddiadau mawr yn y sector cyhoeddus yn rhoi cefnogaeth ddigonol i gydraddoldeb trwy fynd i'r afael â sgiliau, cyflogaeth a thlodi. | 6 |
| Lefelau anghymesur o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth o fewn y gweithle i weithwyr â nodweddion gwarchodedig penodol, yn cynnwys grwpiau ethnig leiafrifol. | 5 |
| Tebygrwydd cynyddol o fod mewn cyflogaeth ansicr (megis contractau dim oriau). | 8 |
| Y perygl o wahaniaethu neu dramgwyddo hawliau yn sgil technoleg newydd yn y gweithle, er enghraifft prosesau recriwtio awtomatig. | 3 |
| Y perygl o wahaniaethu neu dramgwyddo hawliau yn sgil y cynnydd yng nghyffredinrwydd trefniadau gweithio gartref/hybrid. | 1 |

**A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â Gwaith rydych yn credu y dylai EHRC eu hystyried yn 2025-28?**

Wrth edrych ar amgylchedd y gweithle i grwpiau penodol o gyflogeion sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys grwpiau ethnig leiafrifol, gallai'r comisiwn gynnwys adolygiad o arferion dilyniant a recriwtio yn ymwneud â hyrwyddo a dilyniant.

Ystyried sut i sicrhau nad yw newidiadau i swyddi oherwydd trawsnewidiadau hinsawdd yn cael effaith anghymesur ar weithwyr bregus a bod cyfleoedd am swyddi 'gwyrdd' yn deg.

Byddai'r comisiwn yn cael ei gryfhau ymhellach trwy fynd i'r afael â thangynrychiolaeth menywod, lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill mewn rolau uwch.

Dylai'r comisiwn ystyried opsiynau gweithio hyblyg – sut ydym yn sicrhau eu bod ar gael i bawb, yn enwedig rhieni, gofalwyr a gweithwyr anabl?

Mae rhai materion posibl rydym yn eu hystyried yn y maes Cyfranogiad a Chysylltiadau Da ar gyfer 2025-28 wedi'u rhestru isod.

**Llusgwch a gollyngwch y materion canlynol yn ôl trefn (1) pwysicaf i EHRC ganolbwyntio arno i (7) lleiaf pwysig i EHRC ganolbwyntio arno, neu dewiswch y rhif o'r rhestr ar yr ochr chwith i bob datganiad.**

| | |
|---|---|
| Effaith symud gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol yn ddiofyn, yn enwedig ar rai grwpiau, yn cynnwys pobl hŷn ac anabl. | 4 |
| Nid oes rhaid i sefydliadau'r sector breifat gydymffurfio â rheoliadau hygyrchedd gwefannau a diwallu gofynion hygyrchedd digidol. | 7 |
| Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. | 5 |
| Mae technolegau newydd ac sydd eisoes yn bodoli, megis deallusrwydd artiffisial, yn cynyddu'r risg o wahaniaethu a thramgwyddo hawliau preifatrwydd. | 3 |
| Lefelau uwch o waharddiadau ysgol i blant Du Caribïaidd, plant sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND), anghenion dysgu ychwanegol (ADY), anghenion cefnogaeth ychwanegol (ASN) a bechgyn. | 1 |
| Tensiynau cymdeithasol yn sgil trafodaethau cyhoeddus pegynedig ynglŷn â materion cydraddoldeb a hawliau dynol. | 2 |

| | |
|---|---|
| Perygl i ryddid mynegiant trwy wahardd mynegi safbwyntiau penodol, neu 'gau' trafodaeth 'i lawr'. | 6 |

## A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â Chyfranogiad a Chysylltiadau Da rydych yn credu y dylai EHRC eu hystyried yn 2025-28?

1. O ran gwaharddiadau ysgol:

- mae data ar waharddiadau ysgol a gasglwyd yng Nghymru wedi dyddio, sy'n ei gwneud yn anodd siarad am "ddata cyfredol" neu "dueddiadau" a'r effaith ar yr holl grwpiau a grybwyllwyd uchod. Mae hyn yn rhwystro'r gallu i ymateb neu ddwyn eraill (gwasanaethau addysg llywodraeth leol/darparwyr addysg) i gyfrif yn brydlon. Dylai hyn gael ei wella fel rhan o waith y comisiwn yn y maes hwn. Heb wybodaeth gywir a chyfredol, daw'n anodd dwyn darparwyr addysg a gwasanaethau llywodraeth leol yn atebol. Rydym yn argymell bod EHRC yn rhoi blaenoriaeth i wella prosesau casglu data ac adrodd ar waharddiadau o'r ysgol fel rhan o'i waith. Bydd hyn yn gwella'r gallu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn addysg yn effeithiol.
- fel rhan o'r ffocws ar waharddiadau ysgol, byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r comisiwn yn cynnwys yn ei adolygiad defnyddio 'addysg heblaw yn yr ysgol' (AHY) fel math o wahardd o addysg brif ffrwd a'r grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n cael eu cynrychioli'n anghymesur mewn AHY. Gallai hyn hefyd mynnu adolygiad o'r broses o gasglu data a'i gywirdeb, yn ogystal â'r rhesymau dros AHY a hyd y defnydd ohoni a'i heffaith ar gyrhaeddiad addysgol a newidiadau ym mywydau'r grwpiau hyn. Dylai'r adolygiad hwn archwilio nid yn unig gywirdeb data ond hefyd y rhesymau dros ddefnyddio AHY a hyd y defnydd ohoni. Bydd deall ei heffaith ar gyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemig a hanesyddol.

2. O ran y drafodaeth begynedig ynghylch materion yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, byddai galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r medrau i holi a yw safbwyntiau pegynedig yn cael eu rhannu gan y gymdeithas ehangach yn ddefnyddiol. I helpu hyn, gellid gwneud mwy i orfodi'r cyfryngau, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol, i nodi safbwyntiau a phostiadau sy'n cael eu targedau gan ddefnyddio algorithmau. Byddai hyn yn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth ac/neu addysgu pobl ifanc y gellir defnyddio'r cyfryngau i ystumio'r amgyffrediad o

gyffredinrwydd safbwyntiau yn fwriadol. Gallai EHRC chwarae rôl mewn hybu addysg llythrennedd y cyfryngau, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut mae algorithmau a chynnwys wedi'i dargedu yn llywio canfyddiadau ar-lein. Trwy annog tryloywder gan blatfformau'n cyfryngau, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol, ar y defnydd o gynnwys sy'n cael ei sbarduno gan algorithmau, gall EHRC helpu i ddatblygu amgylchedd lle mae plant a phobl ifanc yn datblygu'r gallu i asesu dilysrwydd safbwyntiau eithafol yn feirniadol. Byddai'r ymdrech hon yn cyfrannu'n sylweddol at ymdrechion addysgol ehangach i feithrin meddwl beirniadol a llythrennedd digidol/ar-lein.

3. Dylai'r comisiwn hefyd edrych ar risgiau defnyddio dysgu peirianyddol mewn addysg yn gyffredinol a chan ysgolion ac ymarferwyr addysg. Efallai yr hoffai ganolbwyntio'n benodol ar ei ddefnydd mewn asesiadau ac effaith bosibl hyn ar ragfarn wedi'i dysgu gan beiriant sy'n cynyddu arferion asesu gwahaniaethol. Dylai'r comisiwn hefyd edrych ar effeithiau hyn ar ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys o ran hygyrchedd. Dylai'r comisiwn archwilio sut gallai dysgu peirianyddol atgyfnerthu gwahaniaethau presennol yn anfwriadol a hyrwyddo defnydd tryloyw a theg o'r technolegau hyn mewn addysg.

**Mae rhai materion posibl rydym yn eu hystyried yn y maes Cyfiawnder a Chydbwysedd Hawliau ar gyfer 2025-28 wedi'u rhestru isod.**

**Llusgwch a gollyngwch y materion canlynol yn ôl trefn (1) pwysicaf i EHRC ganolbwyntio arno i (8) lleiaf pwysig i EHRC ganolbwyntio arno, neu dewiswch y rhif o'r rhestr ar yr ochr chwith i bob datganiad.**

| | |
|---|---|
| Eglurdeb cyfreithiol mewn perthynas â materion lle gellid bod tensiwn rhwng hawliau dau neu ragor o grwpiau, er enghraifft, o ran rhyw a rhywedd neu faterion yn ymwneud â chrefydd neu gred. | 7 |
| Troseddau casineb, yn enwedig ar gyfer rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig. | 1 |
| Cyfraddau cyhuddo ac erlyn isel, oedi hir, niferoedd uchel o dynnu cyhuddiadau yn ôl ac ymdriniaeth wael o rai grwpiau o ran cyhuddiadau o dreisio a throseddau rhywiol difrifol. | 4 |
| Plant mewn lletyau cadw ieuenctid yn profi tramgwyddo i'w hawliau dynol, er enghraifft, cael eu cadw ar eu pen eu hun a thechnegau sy'n achosi poen. | 2 |
| Cynnydd yng nghyfradd y bobl ifanc o grwpiau ethnig leiafrifol sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. | 3 |
| Gorgynrychiolaeth o bobl Ddu yn y boblogaeth carchardai, cyfraddau uwch o arestiadau i bobl Ddu, yn ogystal â thebygrwydd uwch o fod yn destun stopio a chwilio. | 5 |
| Lles a diogelwch menywod sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, yn cynnwys lefelau uchel o hunan-niweidio, materion i fenywod beichiog a'r risgiau yn sgil defnydd anghyson o leoliadau diogel a phriodol. | 6 |
| Perygl i'r hawl i brotestio a achosir gan newid i ddeddfwriaeth ac arferion plismona. | 8 |

**A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â Chyfiawnder a Chydbwysedd Hawliau rydych yn credu y dylai EHRC eu hystyried yn 2025-28?**

Yng nghyd-destun troseddau casineb, dylai'r comisiwn gynnwys fel rhan o'i adolygiad:

- ffocws ar droseddau casineb yn erbyn merched a menywod, yn enwedig yng nghyd-destun cynnydd

mewn casineb at fenywod. Dylai'r comisiwn ganolbwyntio ar gefnogi ysgolion ac UCDau i roi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, systemau cymorth a mesurau ataliol ar waith, gyda'r nod o feithrin parch a dealltwriaeth ymhlith disgyblion

- ffocws ar droseddau casineb ymhlith plant a phobl ifanc trwy gefnogi ysgolion ac UCDau i ddatblygu dulliau i hyrwyddo goddefgarwch a lleihau achosion o drais a gwahaniaethu
- pwysigrwydd addysg a rôl hanfodol addysgwyr, ysgolion ac UCDau mewn gwrthwynebu troseddau casineb. Dylai'r comisiwn ystyried ymagweddau gwahanol ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau sy'n grymuso athrawon i fynd i'r afael â throseddau casineb yn yr ystafell ddosbarth yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys ymgorffori ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn y cwricwlwm a datblygu offer i addysgwyr hwyluso trafodaethau yn ymwneud â pharch, amrywiaeth a chynhwysiant
- sut gall darparwyr addysg gydnabod, olrhain a monitro troseddau casineb yn gywir ac ymdrin â materion yn brydlon ac yn gadarn
- sut gall darparwyr addysg ddatblygu arlwy eu cwricwlwm i addysgu'n rhagweithiol ar droseddau casineb

O ran plant yn y ddalfa a'r gyfran gynyddol o bobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y ddalfa, fel rhan o'i waith, dylai'r comisiwn adolygu tegwch y cwricwlwm sydd ar gael i'r plant a'r bobl ifanc hyn a sut mae hyn yn effeithio ar eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol.

O ran gorgynrychiolaeth grwpiau ethnig leiafrifol yn y system cyfiawnder troseddol, gallai'r comisiwn gynnwys yn ei waith:

- mynediad cyfartal at addysg yn y ddalfa – mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y ddalfa yn gallu manteisio ar adnoddau addysgol o ansawdd uchel yn hanfodol. Dylai'r comisiwn archwilio gwahaniaethau o ran darpariaeth ac ystyried pa bolisïau sydd eu hangen i hybu mynediad cyfartal at addysg, gan helpu i wella deilliannau o ran ailintegreiddio
- tegwch o ran gofal, cymorth ac arweiniad adsefydlu i'r rhai sydd yn y ddalfa
- ac effaith y gwaith hwn ar wella deilliannau – gallai hyn gynnwys adolygiad o'r data a gasglwyd a sut caiff ei ddefnyddio gan garchardai i wella eu cymorth. Dylai'r comisiwn ddadansoddi data ar

ymyriadau addysgol a'u heffeithiolrwydd o ran gwella deilliannau i grwpiau ethnig leiafrifol yn y system cyfiawnder troseddol. Dylai'r dadansoddiad hwn lywio arfer orau ac amlygu rhaglenni llwyddiannus sy'n gwella cymorth addysgol ac yn hybu dewisiadau bywyd cadarnhaol.

## A oes unrhyw feysydd blaenoriaeth ar goll o'r cynigion lle yr hoffech weld EHRC yn gweithredu arnynt yn 2025-28?

Mae'r meysydd ffocws arfaethedig yn ymddangos yn gymesur ac yn ystyried materion cymdeithasol cyfredol yn dda. Rydym wedi rhoi sylwadau manwl yn yr arolwg ar y meysydd y gallai EHRC fod eisiau eu hystyried yn ogystal â'i waith ar y themâu awgrymedig neu fel rhan o'i waith arnynt. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau hyn yn annog EHRC i ystyried y canlynol yn ei adolygiad:

- y cysylltiadau â darpariaeth addysg
- sut gall y themâu hyn gyfrannu at anghydraddoldeb mewn addysg
- argaeledd data a'r defnydd ohono
- effaith camau gweithredu ar ddeilliannau

## A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar Gynllun Strategol drafft EHRC?

## Beth yw enw'r sefydliad rydych yn gweithio iddo neu'n ymateb ar ei ran? (dewisol)

Estyn

## Pa fath o sefydliad ydych yn gweithio iddo?

## Dewiswch bob un sy’n berthnasol.

- [ ] Academaidd neu melin drafod
- [ ] Busnes neu sector preifat
- [ ] Cymdeithas sifil (er enghraifft elusen neu undeb)
- [x] Sector cyhoeddus
- [x] Rheolydd, arolygwyr ac ombwdsmon
- [ ] Arall (rhowch fanylion):

## Beth yw maint eich sefydliad?

- [ ] 1 i 9 o bobl
- [ ] 10 i 49 o bobl
- [x] 50 i 249 o bobl
- [ ] 250 neu fwy o bobl

**Ym mha sector ydych chi'n gweithio?**

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

- [x] Addysg
- [ ] Iechyd a gofal cymdeithasol
- [ ] Cyfiawnder a diogelwch personol (er enghraifft troseddau casineb, lladdiadau, trais rhywiol, cam-drin domestig, amodau carcharu, mynediad at gyfiawnder)
- [ ] Tlodi neu dai (neu sectorau eraill sy'n ymdrin â safonau byw)
- [ ] Cyfranogiad gwleidyddol a dinesig
- [ ] Mynediad at wasanaethau
- [ ] Preifatrwydd a gwyliadwriaeth
- [ ] Cydlyniant cymdeithasol a chymunedol
- [ ] Gwaith a chyflogaeth
- [ ] Nid wyf yn gweithio mewn unrhyw un o'r sectorau hyn. Beth yw eich sector?

A all staff EHRC gysylltu â chi’n uniongyrchol ynghylch eich cyflwyniad i’r ymgynghoriad hwn?

- [x] Gallent
- [ ] Na allent

**A hoffech gael diweddariadau drwy’r e-bost am ddatblygiad Cynllun Strategol 2025-28 EHRC?**

- [x] Hoffwn
- [ ] Na hoffwn